

## Rheoli glawiad ffo mewn datblygiadau trefol

### Crynodeb o Brosiect SC030219/S

Mae llawlyfr defnyddwyr sydd newydd gael ei ddiweddarau'n cynghori rheoleiddwyr, datblygwyr ac awdurdodau lleol ar y gofynion o safbwynt dylunio draeniad dŵr storm mewn datblygiadau newydd. Mae'r gofynion hyn yn seiliedig ar bolisi presennol Defra/Asiantaeth yr Amgylchedd ar reoli dŵr storm a rheoli gollyngiadau ar gyfer datblygiadau.

Mae'r llawlyfr hwn yn cynnig dull hawdd ei ddefnyddio ar gyfer pennu uchafsymiau gollyngiadau dŵr storm o safle penodol ac yn esbonio sut i benderfynu maint yr elfennau cronni sydd eu hangen i reoli a thrin y dŵr storm ffo er mwyn cadw o fewn y terfynau hyn. Mae'r amcangyfrifon cronni'n seiliedig ar y feddylfryd bresennol o reoli dŵr storm ffo o safleoedd lle mae gofyn i'r dŵr a ryddheir gydymffurfio â chyfraddau llif a rheolaeth cyfaint. Mae'r canllawiau'n cynnwys gweithdrefn gyfrifo syml sy'n seiliedig ar dablau y gellir cyfeirio atynt i gael y gofynion cyfaint cronni. Mae hyn yn osgoi'r angen i gyfeirio at ddogfennau eraill neu ddefnyddio pecynnau meddalwedd dylunio.

Yn y cam cynllunio cychwynol yn unig y dylid defnyddio'r dull hwn ar gyfer mesur cronfeydd dŵr storm er mwyn cynorthwyo gydag amcangyfrif cyfeintiau dangosol. Mae dyluniad manwl systemau draenio'n gofyn am ddefnyddio meddalwedd addas i gadarnhau neu addasu'r cynigion cronni yn ogystal ag ymdrin â chludiant a'r llawer o agweddau eraill o ddylunio traeniad.

Mae'r canllawiau diwygiedig yn ymateb i'r newidiadau a'r arferion ers i'r ddogfen gael ei chynhyrchu am y tro cyntaf, gan gynnwys ffactorau newid yn yr hinsawdd a pharatoi safonau cenedlaethol SuDS. Mae'r dadansoddiad ar gyfer asesu uchafsymiau cyfraddau llif a gofynion

cyfeintiau cronni'n seiliedig ar wybodaeth gan y Sefydliad Hydroleg. Mae dull ychwanegol o gyfrifo o'r Llawlyfr Amcangyfrif Llifogydd hefyd yn cael ei gynnwys.

Cynhwysir esboniadau ac enghreifftiau atodol er mwyn helpu peirianwyr i roi'r dull ar waith. Mae'r darluniau'n seiliedig ar bump o ddinasoedd y DU gydag amrywiaeth o wahanol nodweddion o safbwynt hydroleg a phridd. Mae cymariaethau rhwng y dull a nodir yn y llawlyfr hwn a dulliau modelu eraill yn dangos bod y dull hwn, er ei fod yn geidwadol ar y cyfan, yn un digon cywir o roi arwydd rhesymol o'r gofynion cronni.

Bydd y ddogfen hon yn galluogi rhai nad ydynt yn arbenigwyr draenio, ac nad oes ganddynt offer safonol addas y diwydiant, i gael asesiad cyflym o'r prif ofynion draenio sydd eu hangen ar gyfer datblygiad arfaethedig. Mae dyfais syml ac am ddim ar we, [www.uksuds.com](http://www.uksuds.com), bellach ar gael ac fe'i cymeradwyir gan Asiantaeth yr Amgylchedd i'w defnyddio mewn ceisiadau cynllunio.

Noder y bydd y llawlyfr defnyddwyr hwn yn cael ei ddiweddarau pan fod gwaith pellach fel rhan o brosiect SC090031, 'Amcangyfrif Llifogydd mewn Dalgylchoedd Bach', wedi ei gwblhau.

Mae'r crynodeb hwn yn ymwneud â gwybodaeth o brosiect SC030219, y ceir adroddiad manwl amdano yn y cyhoeddiad(au) canlynol:

Adroddiad: SC030219/R

Teitl: Preliminary rainfall run-off management for developments

Hydref 2013

Statws Allanol: Ar gael i'r cyhoedd

Rheolwr y Prosiect: Johnathan Austin, Rheoli Perygl  
Llifogydd ac Arfordiroedd  
Rheolwr Thema: Geoff Gibbs, Rheoli Perygl  
Llifogydd ac Arfordiroedd  
Contractwr Ymchwil: HR Wallingford, Howbery  
Park, Wallingford, Oxon, OX108BA. Ffôn:  
+44(0)1491835381

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth  
Tystiolaeth Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o  
Raglen Ymchwil a Datblygu Asiantaeth yr  
Amgylchedd a Defra ar y cyd i Reoli Risg Llifogydd  
ac Erydu Arfordirol.

E-bost: [fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk](mailto:fcerm.evidence@environment-agency.gov.uk).